**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

06 Medi 2023

Annwyl Huw

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr 30 Mehefin 2023 atoch chi. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Marchnata a Safonau Cynnyrch Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023 drafft mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: https://senedd.cymru/media/1lbfljml/ws-ld16012-w.pdf.

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn yn dilyn Cytundeb Fframwaith Windsor a gyrhaeddwyd gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 5 Medi 2023 gyda dyddiad cychwyn o 1 Hydref 2023.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.